

2026 NEWSLETTER

For members of the Archaeological
Organisations Pension Scheme

Bilingual edition

CYLCHLYTHYR 2026

Ar gyfer aelodau Cynllun Pensiwn
Sefydliadau Archaeolegol

Rhifyn dwyieithog

Archaeological
Organisations Pension
Scheme (AOPS)

Contents

- 1-2 A few words from our new Chair
- 3-6 Our Scheme's finances
- 5-6 Benefit Rectification
- 7-10 An update from Heneb
- 11-12 Beware of pension scams!
- 13-14 The State Pensions and Pension Credit
- 13-14 Changes to the Normal Minimum Pension Age
- 15 Help and support

Cynnwys

- 1-2 Gair neu ddau gan ein Cadeirydd newydd
- 3-6 Cyllid ein Cynllun
- 5-6 Cywiro Buddion
- 7-10 Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Heneb
- 11-12 Bod yn wylidwrus o sgamiau pensiwn!
- 13-14 Pensiwn y Wladwriaeth a Chredyd Pensiwn
- 13-14 Newidiadau i'r Isafswm Oedran Pensiwn Arferol
- 15 Cymorth a chefnogaeth

A few words from our new Chair

Welcome to this year's Newsletter. It's been a busy year for our Scheme, and I'm pleased to share some of the highlights with you.

I recently stepped into the role of Chair, taking over from Stuart Travers. My sincere thanks go to Stuart for his commitment and contribution, and I wish him well for the future.

Over the past year, we've resolved several issues relating to our Trust Deed and Rules through a process known as benefit rectification. This work is now complete, and you should have received confirmation of how this has impacted your benefits in our Scheme. We are still looking to speak to a few members regarding the changes and further details about this are included on page 5.

We've also simplified how pensions increase in payment. Rather than increasing on each individual's retirement anniversary, all pensions will

now increase on **1 April** each year. Those immediately affected have already received personalised details of this change.

Protecting our Scheme's financial health remains our priority. Working closely with our Investment Consultants, we have made targeted adjustments to how the Scheme's assets are invested. You can read more about these changes on pages 3 to 6.

Finally, my thanks go to everyone involved in running our Scheme. Their dedication ensures we continue to safeguard your financial wellbeing in retirement.

Warmest regards,

Luke Wilcox

**Chair of the Trustee,
Archaeological
Organisations
Pension Scheme**



Gair neu ddau gan ein Cadeirydd newydd

Croeso i Gylchlythyr eleni. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'n Cynllun, ac rwy'n falch o rannu rhai o'r uchafbwyntiau gyda chi.

Yn ddiweddar, fe wnes i gamu i rôl y Cadeirydd, gan gymryd yr awenau oddi wrth Stuart Travers. Diolch o galon i Stuart am ei ymrwymiad a'i gyfraniad, a dymunaf yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datrys nifer o faterion sy'n ymwneud â'n Gweithred Ymddiriedolaeth Rheolau drwy broses o'r enw cywiro buddion. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau, a dylech fod wedi cael cadarnhad o sut mae hyn wedi effeithio ar y buddion sydd gennych yn ein Cynllun. Rydym yn dal yn awyddus i siarad ag ychydig o aelodau

ynghylch y newidiadau ac mae rhagor o fanylion am hyn ar dudalen 6.

Rydym hefyd wedi symleiddio'r ffordd y mae pensiynau'n cynyddu o ran taliadau. Yn hytrach na chynyddu bob blwyddyn ar y dyddiad y bu'r unigolyn ymddeol bydd pob pensiwn nawr yn cynyddu bob **1 Ebrill**. Mae'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol eisoes wedi cael manylion am y newid hwn sy'n bersonol iddyn nhw.

Diogelu iechyd ariannol ein Cynllun yw ein blaenoriaeth o hyd. Gan weithio'n agos gyda'n Hymgynghorwyr Buddsoddi, rydym wedi gwneud addasiadau wedi'u targedu i sut mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi. Gallwch ddarllen mwy am hyn ar dudalennau 3 i 6.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sy'n rhan o redeg ein Cynllun. Mae eu hymroddiad yn sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu eich llesiant ariannol ar ôl ymddeol.

Cofion cynnes,

Luke Wilcox

**Cadeirydd Ymddiriedolwr Cynllun
Pensiwn Sefydliadau Archaeolegol**

How to contact us / Sut i gysylltu â ni

If you have any questions about your benefits within our Scheme, please contact First Actuarial, our Scheme Administrator. **Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich buddion o fewn ein Cynllun, cysylltwch â First Actuarial, ein Gweinyddwr Cynllun.**

✉ Archaeological Organisations Pension Scheme, First Actuarial LLP,
Fosse House, 182 High Street, Tonbridge, Kent, TN9 1BE

@ clair.beattie@firstactuarial.co.uk

📞 01732 207 500

🏠 **aops.org.uk**

The Scheme's privacy notice is available to view at **aops.org.uk**, along with other Scheme information. **Mae hysbysiad preifatrwydd y Cynllun ar gael i'w weld yn aops.org.uk, ynghyd â gwybodaeth arall am y Cynllun.**

Our Scheme's finances

Every year, we take a close look at our Scheme's finances; here's a quick summary of the key points.



£10.8m¹

The value of our Scheme.



97¹

The number of members we have.

Over the past twelve months, we've paid out:



£419k²

In pensions and associated retirement lump sums.

¹Figures shown are at 5 April 2025. ²Amounts paid in the 12 months to 5 April 2025.

We formally assess the Scheme's funding position every three years in what is known as an Actuarial Valuation. This measures whether the Scheme's assets are sufficient to meet its liabilities (benefits payable) and where they aren't, we agree a Recovery Plan with Heneb for them to make up the shortfall. The last of these valuations occurred as at 5 April 2024 which showed a funding level of 80%. Heneb have made all contributions due to the Scheme since the valuation date, in line with the Recovery Plan.



Please be assured that whilst we're not yet 100% funded, we've more than enough money to continue to pay pensions in the short and medium terms.

We want our Scheme's assets to grow, but it's just as important that

we can always pay members the benefits they're owed. Things like inflation and changes in interest rates can affect both how much our investments are worth and how much it costs to provide those benefits.

Continued on page 5

Cyllid ein Cynllun

Bob blwyddyn, rydym yn edrych yn fanwl ar gyllid ein Cynllun; dyma grynoded cyflym o'r prif bwyntiau.



£10.8m¹

Gwerth ein Cynllun.



97¹

Nifer yr aelodau sydd gennym.

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi talu:



£419k²

Mewn pensiynau a chyfandaliadau ymddeol cysylltiedig.

¹Mae'r ffigurau a ddangosir ar 5 Ebrill 2025 ²Symiau a dalwyd yn ystod y 12 mis hyd at 5 Ebrill 2025.

Rydym yn asesu sefyllfa ariannu'r Cynllun yn ffurfiol bob tair blynedd mewn proses a elwir yn Brisiad Actiwaraid. Mae hyn yn mesur a yw asedau'r Cynllun yn ddigonol i fodloni ei rwymedigaethau (buddion sy'n daladwy) ac os nad ydynt, rydym yn cytuno ar Gynllun Adfer gyda Heneb er mwyn iddynt wneud iawn am y diffyg. Roedd yr olaf o'r prisiadau hyn ar 5 Ebrill 2024 a dangosodd lefel ariannu a oedd yn 80%. Mae Heneb wedi gwneud yr holl gyfraniadau sy'n ddyledus i'r Cynllun ers y dyddiad prisio, yn unol â'r Cynllun Adfer.



Gallwch fod yn dawl eich meddwl, er nad ydym wedi ein hariannu 100% eto, bod gennym ni fwy na digon o arian i barhau i dalu pensiynau yn y tymor byr a chanolig.

Rydym eisiau i asedau ein Cynllun

dyfu, ond mae'r un mor bwysig ein bod bob amser yn gallu talu'r buddion sy'n ddyledus iddyn nhw i aelodau. Gall pethau megis chwyddiant a newidiadau mewn cyfraddau llog effeithio ar werth ein buddsoddiadau a faint mae'n ei gostio i ddarparu'r buddion hynny.

Yn parhau ar dudalen 6

To help manage these risks, we're updating the way we invest some of our Scheme's assets. We're reducing our holdings in UK Government Bonds in favour of an approach to investing called Liability Driven Investment. In simple terms, this means investing in a way that better reflects the timing and amount of future pension payments.

We're introducing these changes gradually to make sure we pick the right moments to adjust our investments. Because of this, it'll take several months to make the necessary adjustments.

Gallagher acquire First Actuarial

In December 2025, First Actuarial, our Scheme Actuary, Investment Adviser and Scheme Administrator, was acquired by Gallagher. In time this will result in First Actuarial changing its name to Gallagher, but for the immediate future there will be no change for our Scheme.

We do not expect the acquisition to impact the services to the Scheme. Prior to any change taking place, we will contact members to keep you informed.

Do you want to read more about our Scheme's finances?

A Summary Funding Statement, with further information about the 2024 Actuarial Valuation, is also available to view or download at: aops.org.uk
You can also request the following documents from our Scheme Administrator:

- **The Trustee's Report and Accounts**
This includes our audited accounts for the 12 months to 5 April 2025.
- **The Schedule of Contributions**
This shows how much money Heneb is paying into our Scheme.
- **The 2024 Actuarial Report**
This details the results of the 2024 Actuarial Valuation.

Who are Gallagher?

Gallagher (Arthur J. Gallagher & Co.) is a global insurance brokerage, risk management, and consulting services firm headquartered in Rolling Meadows, Illinois (USA).



The company operates in around 130 countries,

including employing circa 7,000 employees in the UK.

Benefit Rectification

As noted in our Chair's introduction, this work is now largely complete. However, there are a small handful of members to whom a refund of contributions is payable. **We are making attempts to contact the members, but if anyone knows the following, could you please ask them to get in touch with First Actuarial;**

Eleanor Breen, Sven Egloff, Spencer Smith and Richard Sambrook.

Er mwyn helpu i reoli'r risgiau hyn, rydym yn diweddarau'r ffordd rydym yn buddsoddi rhai o asedau ein Cynllun. Rydym yn lleihau ein daliadau ym Mondiau Llywodraeth y DU o blaid dull buddsoddi o'r enw Buddsoddiadau a Ysgogir gan Rwymedigaethau. Yn syml, mae hyn yn golygu buddsoddi mewn ffordd sy'n adlewyrchu amseriad a swm taliadau pensiwn yn y dyfodol yn well.

Rydym yn cyflwyno'r newidiadau hyn yn raddol i wneud yn siŵr ein bod yn dewis yr adegau iawn i addasu ein buddsoddiadau. Oherwydd hyn, bydd yn cymryd sawl mis i wneud yr addasiadau angenrheidiol.

Gallagher yn caffael First Actuarial

Ym mis Rhagfyr 2025, cafodd First Actuarial, sef Actiwari ein Cynllun, ein Cynghorydd Buddsoddi a Gweinyddwr y Cynllun, ei gaffael gan Gallagher. Ymhen amser, bydd hyn yn arwain at First Actuarial yn newid ei enw i Gallagher, ond ni fydd ein Cynllun yn newid yn y dyfodol agos.

Nid ydym yn disgwyl i'r caffael effeithio ar y gwasanaethau i'r Cynllun. Cyn i unrhyw newid ddigwydd, byddwn yn cysylltu â'r aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Hoffech chi ddarllen mwy am sefyllfa ariannol ein Cynllun?

Mae **Datganiad Cyllid Cryno**, gyda rhagor o wybodaeth am Brisiad Actiwaraidd 2024, hefyd ar gael i'w weld neu i'w lawrlwytho: aops.org.uk
Gallwch hefyd ofyn am y dogfennau canlynol gan Weinyddwr ein Cynllun:

- **Adroddiad a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr**
Mae hyn yn cynnwys ein cyfrifon archwiledig am y 12 mis hyd at 5 Ebrill 2025.
- **Yr Atodlen Cyfraniadau**
Mae hon yn dangos faint o arian y mae Heneb yn ei dalu i'n Cynllun.
- **Adroddiad Actiwaraidd 2024**
Mae hwn yn rhoi manylion canlyniadau Prisiad Actiwaraidd 2024.

Pwy yw Gallagher?

Mae Gallagher (Arthur J. Gallagher a Co.) yn gwmni byd-eang sy'n delio â broceriaeth yswiriant, rheoli risg a gwasanaethau ymgynghori sydd â'i bencadlys yn Rolling Meadows, Illinois (UDA).



Mae'r cwmni'n gweithredu mewn tua 130 o wledydd, gan gynnwys cyflogi tua 7,000 o weithwyr yn y DU.

Cywiro Buddion

Fel y nodwyd yng nghyflwyniad ein Cadeirydd, mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae llond llaw o aelodau y mae ad-daliad o gyfraniadau'n daladwy iddynt. **Rydym yn ceisio cysylltu â'r aelodau, ond os oes unrhyw un yn adnabod yr canlynol, a fydddech cystal â gofyn iddynt gysylltu â First Actuarial;**

Eleanor Breen, Sven Egloff, Spencer Smith and Richard Sambrook.

An update from Heneb

During 2025–26, Heneb archaeologists were at the forefront of some of the most exciting archaeological discoveries in Wales, combining professional expertise, community involvement and national partnerships.

Across the country, community excavations brought people directly into their local past. At Newtown, Powys, and Castell Dinas Brân in Llangollen, local volunteers worked shoulder to shoulder with Heneb teams, uncovering new evidence and strengthening connections between communities and their heritage.

In Laugharne, the Island House restoration and community archaeology project delivered a remarkable breakthrough: the first fully excavated medieval quayside in Wales. This discovery has fundamentally reshaped our understanding of trade, transport and daily life in a medieval Welsh coastal town.



Local volunteers worked shoulder to shoulder with Heneb teams

Bu gwirfoddolwyr lleol yn gweithio ochr yn ochr â thimau Heneb



At Trearddur Burial Chamber, a community-led excavation overturned long-held assumptions. What was thought to be a burial chamber was revealed to be a menhir or standing stone, closely related to nearby monuments such as Tŷ Mawr.

This discovery significantly enhances our understanding of this iconic Anglesey landscape.

One of the most extraordinary projects of the year took place at Buckspool Promontory Fort, Pembrokeshire, where 32 ex-military and serving personnel excavated alongside Heneb archaeologists and Richard Osgood, the Ministry of Defence’s archaeologist. Two large circular features, long believed to be Iron Age roundhouses, produced deep deposits actually packed with Roman material — including over 160 Roman coins, large quantities of Roman pottery, animal bone and associated artefacts.

Continued on page 9

Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Heneb

Yn ystod 2025–26, roedd archaeolegwyr Heneb ar flaen y gad o ran rhai o’r darganfyddiadau archaeolegol mwyaf cyffrous yng Nghymru, gan gyfuno arbenigedd proffesiynol, cyfranogiad y gymuned a phartneriaethau cenedlaethol.

Ledled y wlad, daeth gwaith cloddio cymunedol â phobl i gysylltiad uniongyrchol â’u gorffennol lleol. Yn y Drenewydd, Powys, a Chastell Dinas Brân yn Llangollen, bu gwirfoddolwyr lleol yn gweithio ochr yn ochr â thimau Heneb, gan ddatgelu tystiolaeth newydd a chryfhau’r cysylltiadau rhwng cymunedau a’u treftadaeth.

Yn Nhalacharn, cyflawnodd y prosiect archaeoleg gymunedol i adfer Tŷ’r Ynys ddatblygiad nodedig: y cei canoloesol cyntaf i gael ei gloddio’n llawn yng Nghymru. Mae’r darganfyddiad hwn wedi ail-lunio ein dealltwriaeth o fasnach, trafnidiaeth a

bywyd bob dydd mewn tref arfordirol ganoloesol yng Nghymru.

Yn Siambr Gladdu Trearddur, cafodd tybiaethau hirsefydlog eu gwrthdroi gan waith cloddio dan arweiniad y gymuned. Datgelwyd bod yr hyn y credid ei fod yn siambr gladdu mewn gwirionedd yn faen hir, yn perthyn yn agos i henebion cyfagos megis Tŷ Mawr. Mae’r darganfyddiad hwn yn gwella ein dealltwriaeth o dirwedd eiconig Ynys Môn yn sylweddol.

Cynhaliwyd un o brosiectau mwyaf anhygoel y flwyddyn yng Nghaer Bentir Ucheldirol Buckspool, Sir Benfro, lle bu 32 o staff milwrol a chyn staff milwrol yn cloddio ochr yn ochr ag archaeolegwyr Heneb a Richard Osgood, archaeolegydd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Canfuwyd dyddodion dwfn a oedd yn llawn deunydd Rhufeinig mewn dwy nodwedd gron fawr, y credir ers amser maith eu bod yn dai crwn o’r Oes Haearn — roedd hyn yn cynnwys dros 160 o ddarnau arian Rhufeinig, nifer

fawr o grochenwaith Rhufeinig, esgyrn anifeiliaid ac arteffactau cysylltiedig.

Mae’r darganfyddiad annisgwyl hwn yn codi cwestiynau cwbl newydd am weithgarwch Rhufeinig ar arfordir Sir Benfro.

Yn parhau ar dudalen 10



Volunteers unearth more of the mysterious medieval mound in Newtown

Gwirfoddolwyr yn datgelu mwy o’r twmpath canoloesol dirgel yn y Drenewydd

This unexpected discovery opens up entirely new questions about Roman activity on the Pembrokeshire coast.

Further discoveries followed in Abergwili, where excavations at Parc yr Esgob around the glasshouse furnaces and beds within the historic walled garden added depth to our understanding of this important heritage site in Carmarthenshire.

Meanwhile, at Greenfield Valley Heritage Park, Flintshire, a substantial volunteer-supported excavation played a crucial role in improving our understanding of the site and the early interactions between Roman and Iron Age communities in north-east Wales.

Heneb continued to play a strong role in national and regional dialogue about archaeology, heritage and place.

Colleagues presented and participated in the ClfA Conference in Birmingham and the Iron Age Dialogues Conference in Cardiff, sharing research and learning from across Wales.

Our Field Services Team was showcased at the Business Wales

Expo at Swansea Arena, alongside ongoing engagement with business networks including the Ynys Môn Business Network, helping strengthen archaeology's place within the wider Welsh economy.

The team had a particularly productive week at the National Eisteddfod in Wrexham, delivering two well-attended presentations in the Cymdeithasau area of the Maes, both of which attracted strong audiences and lively discussion.

Heneb was also represented at Gofod3, Wales' national third-sector conference held at Cardiff City Stadium, and at the HER Forum hosted by Historic England in London.

A major milestone for the organisation was the launch of Heneb's 5-Year Strategy to 2030 at the Senedd, kindly sponsored by Heledd Fychan AS, marking a new chapter in the Trust's development as a national body for Welsh archaeology.

Richard Nicholls
Chief Executive, Heneb



Community-led excavation at Trearddur Burial Chamber
Gwaith cloddio dan arweiniad y gymuned yn Siambr Gladdu Trearddur

Dilynwyd hyn gan ddarganfyddiadau pellach yn Abergwili, lle bu gwaith cloddio ym Mharc yr Esgob o amgylch ffwrneisi a gwelyau'r tŷ gwydr yn yr ardd furiog hanesyddol ychwanegu dyfnder at ein dealltwriaeth o'r safle treftadaeth pwysig hwn yn Sir Gaerfyrddin.

Yn y cyfamser, ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, Sir y Fflint, chwaraeodd gwaith cloddio sylweddol a oedd wedi'i gefnogi gan wirfoddolwyr ran hollbwysig yn y gwaith o wella ein dealltwriaeth o'r safle a'r rhyngweithio cynnar rhwng cymunedau Rhufeinig ac Oes yr Haearn yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Parhaodd Heneb i chwarae rhan gref mewn deialog genedlaethol a rhanbarthol am archaeoleg, treftadaeth a lle.

Bu cydweithwyr yn cyflwyno ac yn cymryd rhan yng Nghynhadledd Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr yn Birmingham a Chynhadledd Deialogau am yr Oes Haearn yng Nghaerdydd, gan rannu ymchwil a dysgu o bob cwr o Gymru.

Cafodd ein Tîm Gwasanaethau Maes ei arddangos yn Expo Busnes Cymru



Greenfield Valley Heritage Park, excavation
Gwaith cloddio ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

yn Arena Abertawe, ochr yn ochr ag ymgysylltu parhaus â rhwydweithiau busnes gan gynnwys Rhwydwaith Busnes Ynys Môn, gan helpu i gryfhau lle archaeoleg yn economi ehangach Cymru.

Cafodd y tîm wythnos arbennig o gynhyrchiol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, gan roi dau gyflwyniad poblogaidd yn y rhan o'r Maes ar gyfer Cymdeithasau. Denodd y ddau gyflwyniad cynulleidfaoedd cryf a chafwyd trafodaethau bywiog.

Cynrychiolwyd Heneb hefyd yn Gofod3, sef cynhadledd trydydd sector genedlaethol Cymru a gynhaliwyd

yn Stadiwm Dinas Caerdydd, ac yn y Fforwm Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a gynhaliwyd yn Llundain gan Historic England.

Carreg filltir bwysig i'r sefydliad oedd lansio yn y Senedd Strategaeth 5 Mlynedd Heneb hyd at 2030, sydd wedi'i noddi'n garedig gan Heledd Fychan AS. Mae hyn yn nodi pennod newydd yn natblygiad yr Ymddiriedolaeth fel corff cenedlaethol ar gyfer archaeoleg Cymru.

Richard Nicholls
Prif Weithredwr, Heneb

Beware of pension scams!

The consequences of falling victim to a pension scam can be life changing. Staying alert to scams is the best way to protect yourself.

Here are three warning signs that you may be about to fall victim to a pension scam:



You're unexpectedly contacted about your pension:

Genuine financial advisers can't cold call – it's against the law. If someone contacts you out of the blue, it's a major red flag.



The offer seems too-good-to-be-true:

Scammers often make promises of unusually high returns or early pension access without penalties. If the offer sounds too-good-to-be-true, it's probably a scam!



You feel you're being pressured to make a decision:

Scammers may push you to act quickly so you don't have time to think or seek advice.

For more guidance on spotting scams, visit




stopthinkfraud.campaign.gov.uk or fca.org.uk/consumers/pension-scams



If you think you have been targeted or scammed, report it on **0300 123 2040** or online at reportfraud.police.uk

To help you to keep your Scheme benefits safe, we may ask you additional questions before approving a pension transfer.

The Trustee can refuse to make a payment if a scam is suspected.



Bod yn wyladwrus o sgamiau pensiwn!

Gall canlyniadau dioddef sgam pensiwn newid bywydau. Bod yn effro i sgamiau yw'r ffordd orau o amddiffyn eich hun.

Dyma dri rhybudd y gallech fod ar fin dioddef sgam pensiwn:



Rhywun yn cysylltu â chi'n annisgwyl am eich pensiwn:

Ni all cyngorwyr ariannol go iawn alw'n ddigymell oherwydd ei fod yn erbyn y gyfraith. Os bydd rhywun yn cysylltu â chi'n annisgwyl, mae'n faner goch fawr.



Mae'r cynnig yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir:

Mae sgamwyr yn aml yn gwneud addewidion o enillion anarferol o uchel neu fynediad cynnar at bensiwn heb gosbau. Os yw'r cynnig yn swinio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod yn sgam!



Rydych chi'n teimlo bod pwysau arnoch chi i wneud penderfyniad:

Mae'n bosibl y bydd sgamwyr yn eich gwrthio i weithredu'n gyflym fel nad oes gennych amser i feddwl neu i ofyn am gyngor.

I gael rhagor o arweiniad ar adnabod sgamiau, ewch i



stopthinkfraud.campaign.gov.uk/cy/hafan/ neu fca.org.uk/consumers/adrodd-am-sgam



Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael eich targedu neu eich sgamio, rhwch wybod ar **0300 123 2040** neu ewch ar-lein i reportfraud.police.uk/reporting-in-welsh

Er mwyn eich helpu i gadw buddion eich Cynllun yn ddiogel, efallai y byddwn yn gofyn cwestiynau ychwanegol i chi cyn cymeradwyo trosglwyddiad pensiwn.

Gall yr Ymddiriedolwr wrthod talu trosglwyddiad os amheuir bod sgam wedi digwydd.



The State Pension and Pension Credit

From April 2026, the full new State Pension rose to **£240.30 per week, a 4.8% increase on the 2025 rate. Men born before 6 April 1951 (and women born before 6 April 1953) receive the Basic (Old) State Pension which increased to £184.90 per week.**

For further details on how the State Pension is calculated, visit gov.uk/state-pension/how-much-you-get

Do you qualify for Pension Credit?

If you've already reached State Pension age and your weekly income is below £238 (if you're single) or £363.25 (for a couple), you may qualify for Pension Credit. People with higher incomes may still be eligible if they have a disability or caring responsibilities.



Hundreds of thousands of people who qualify for Pension Credit are not claiming it. You can check your eligibility at gov.uk/pension-credit/eligibility

Were you born on or after 6 April 1960?

Between April 2026 and April 2028, the State Pension age will gradually increase from age 66 to age 67. Further increases are planned from 2040 onwards. You can confirm your State Pension age at gov.uk/state-pension-age

Changes to the Normal Minimum Pension Age (NMPA)

For most people, the earliest they can access their retirement savings is **age 55** – the current NMPA. The main exceptions are those retiring due to ill health or those with a lower protected pension age.

From **6 April 2028**, the NMPA will **increase to age 57**.
Who will this affect?

• If you were born on or before 5 April 1971

You won't be affected, as you'll have seen your 57th birthday before the change takes effect.

• Those born between 6 April 1971 and 5 April 1973

From April 2028 you'll only be able to access your pension from age 57, so if you're planning to start receiving your pension earlier that age 57, you'll need to act before this change takes effect.

• If you were born on or after 6 April 1973

Your NMPA will be age 57.

If you're already receiving your pension on 6 April 2028 but haven't yet reached age 57, your payments can continue unaffected by this change.

Pensiwn y Wladwriaeth a Chredyd Pensiwn

O fis Ebrill 2026, cododd Pensiwn newydd llawn y Wladwriaeth i £240.30 yr wythnos, 4.8% o gynydd ar gyfradd 2025. Mae dynion a aned cyn 6 Ebrill 1951 (a menywod a aned cyn 6 Ebrill 1953) yn cael Pensiwn Sylfaenol (Hen) y Wladwriaeth a gynyddodd i £184.90 yr wythnos.

I gael rhagor o fanylion am sut mae Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gyfrifo, ewch i gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth/faint-fyddwch-yn-ei-gael

Ydych chi'n gymwys i gael Credyd Pensiwn?

Os ydych eisoes wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth a bod eich incwm wythnosol yn is na £238 (os ydych yn sengl) neu £363.25 (ar gyfer cwpl), mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael Credyd Pensiwn. Gall pobl ar incwm uwch fod yn gymwys o hyd os oes ganddynt anabledd neu gyfrifoldebau gofalu.

Nid yw cannoedd o filoedd o bobl sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn yn ei hawlio. Gallwch weld a ydych chi'n gymwys yn gov.uk/credyd-pensiwn/cymhwyster

A gawsoch eich geni ar 6 Ebrill 1960 neu ar ôl hynny?

Rhwng mis Ebrill 2026 a mis Ebrill 2028, bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu'n raddol o 66 oed i 67 oed. Mae rhagor o gynydd ar y gweill ar gyfer 2040 ymlaen. Gallwch gadarnhau eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn gov.uk/state-pension-age

Newidiadau i'r Isafswm Oedran Pensiwn Arferol (NMPA)

I'r rhan fwyaf o bobl, y cynharaf y gallant gael mynediad at eu cynilion ymddeol yw **55 oed** – sef yr NMPA presennol. Y prif eithriadau yw'r rhai hynny sy'n ymddeol oherwydd salwch neu'r rhai hynny sydd ag oedran pensiwn gwarchodedig is.

O **6 Ebrill 2028** ymlaen, bydd yr NMPA yn **cynyddu i 57 oed**.

Ar bwy fydd hyn yn effeithio?

• Os cawsoch eich geni ar 5 Ebrill 1971 neu cyn hynny

Ni fydd hyn yn effeithio arnoch chi, gan y byddwch wedi troi'n 57 oed cyn i'r newid ddod i rym.

• Y rhai hynny a aned rhwng 6 Ebrill 1971 a 5 Ebrill 1973

O fis Ebrill 2028 ymlaen, dim ond ar ôl troi'n 57 oed y byddwch chi'n gallu cael mynediad at eich pensiwn, felly os ydych chi'n bwriadu dechrau cael eich pensiwn yn gynharach na 57 oed, bydd angen i chi weithredu cyn i'r newid hwn ddod i rym.

• Os cawsoch eich geni ar 6 Ebrill 1973 neu ar ôl hynny

Bydd eich NMPA yn 57.

Os ydych chi eisoes yn cael eich pensiwn ar 6 Ebrill 2028 ond nad ydych chi wedi cyrraedd 57 oed eto, ni fydd y newid hwn yn effeithio ar eich taliadau.

Help and support

Our Scheme Administrator cannot, by law, provide you with financial advice. But there are those out there who can...

- **Independent Financial Advisers (IFAs)**

These professionals are specially trained to provide financial advice. You can search for authorised IFAs on the Financial Conduct Authority's register at:

fca.org.uk/firms/financial-services-register

- **Pension Wise**

Part of MoneyHelper, this free and impartial service, for those age 50 and over, provides guidance on pensions. For more details or to book an appointment, visit: moneyhelper.org.uk/en/pensions-and-retirement/pension-wise

- **MoneyHelper**

It's not just about pensions! MoneyHelper offers support across a wide range of financial topics. You can explore more at: moneyhelper.org.uk/en

Cymorth a chefnogaeth

Yn ôl y gyfraith, ni all Gweinyddwr ein Cynllun roi cyngor ariannol i chi. Ond mae rhai ar gael sy'n gallu gwneud hynny...

- **Cynghorwyr Ariannol Annibynnol (IFAs)**

Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddarparu cyngor ariannol. Gallwch chwilio am Gynghorwyr Ariannol Annibynnol ar gofrestr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn:

register.fca.org.uk/firms/financial-services-register

- **Pension Wise**

Mae'r gwasanaeth diduedd, rhad ac am ddim hwn ar gyfer pobl 50 oed a hŷn yn rhan o MoneyHelper ac yn rhoi arweiniad ar bensiynau. I gael rhagor o fanylion, neu i drefnu apwyntiad, ewch i: moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/pension-wise

- **MoneyHelper**

Nid dim ond pensiynau sy'n bwysig! Mae MoneyHelper yn cynnig cymorth ar draws ystod eang o bynciau ariannol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: moneyhelper.org.uk/cy